Senghennydd Road,
Cardiff, CF24 4YE
Ffordd Senghennydd,
Caerdydd, CF24 4YE

029 2064 6900
shermantheatre.co.uk
@ShermanTheatre

## Cyfarwyddydd dan Hyfforddiant sy'n siarad Cymraeg

Mae Theatr y Sherman gyda chefnogaeth gan Theatr Genedlaethol Cymru, yn chwilio am Gyfarwyddydd dan Hyfforddiant sy'n siarad Cymraeg i weithio ar ein Sioe Nadolig hwyliog i blant rhwng 3 a 6 oed.

Mae Theatr y Sherman wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd i gyfarwyddwyr Cymreig newydd o bob cefndir ddatblygu eu crefft, eu sgiliau a'u hymarfer proffesiynol, tra'n ehangu eu rhwydweithiau o fewn y diwydiant yn ogystal.

Mae'r cynllun Cyfarwyddydd Cymraeg wedi'i greu i gynnig cyfle i gyfarwyddwyr sy'n siarad Cymraeg ennill profiad yn cyfarwyddo cynyrchiadau proffesiynol yn ein Stiwdio. Gyda chefnogaeth Theatr Genedlaethol Cymru, bydd y Cyfarwyddydd dan Hyfforddiant sy'n siarad Cymraeg yn cynorthwyo cyfarwyddwr ein Sioe Nadolig i blant rhwng 3 a 6 oed gyda'r bwriad o fynd ymlaen i gyfarwyddo'r sioe honno yn y dyfodol.

Y Sioe Nadolig ar gyfer rhai rhwng 3 a 6 oed yn 2024 fydd *Little Red Riding Hood / Yr Hugan Fach Goch* gan Katie Elin Salt, a'i chyfarwyddo gan Alice Eklund.

Mae *Little Red Riding Hood / Yr Hugan Fach Goch* yn gyflwyniad perffaith i'r theatr ar gyfer plant rhwng 3 a 6 oed. Mae'n stori glasurol llawn hwyl, yn cael ei hadrodd gan gwmni talentog o actor-gerddorion.

Taliadau: £3,000

Mae'r Amserlen Gynhyrchu fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Ymarferion yn dechrau**: | Dydd Llun, Hydref 7, 2024 |
| **Wythnos ymarferion technegol yn Theatr y Sherman:** | Dydd Llun, Hydref 28, 2024 |
| **Rhagwelediadau Cyntaf:** | Dydd Gwener a Dydd Sadwrn, Tachwedd 1 a 2, 2024 |
| **Taith o amgylch De Cymru (ddim yn aros dros nos):** | Dydd Llun, Tachwedd 4 – Dydd Sadwrn, Tachwedd 23, 2024 |
| **Perfformiad Cyntaf yn ôl yn Theatr y Sherman:** | Dydd Llun, Tachwedd 25, 2024 |
| **Perfformiadau'r Wasg yn Theatr y Sherman:** | Dydd Sadwrn, Tachwedd 30, 2024 |
| **Perfformiadau Terfynol:** | Dydd Sadwrn, Ionawr 4, 2025 |

I ymgeisio, e-bostiwch lythyr cais sy'n egluro pam mai hon yw'r swydd iawn ar eich cyfer chi ar hyn o bryd, a CV o brofiad cyfarwyddo blaenorol i recruitment@shermantheatre.co.uk

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: hanner dydd, dydd Gwener, Mai 3 2024**

**Cyfarfodydd gydag ymgeiswyr ar y rhestr fer: Dydd Iau, 9 Mai 2024.**